**Mark Drakeford AC / AM**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid**
**Cabinet Secretary for Finance**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref MD/00474/18

David Rowlands AC
Cadeirydd
Y Pwyllgor Deisebau
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

SeneddDeisebau@cynulliad.cymru

27 Medi 2018

Annwyl David,

Diolch am eich llythyr dyddiedig 10 Medi, yn gofyn am fy marn ynghylch deiseb gan Unsain Castell-nedd Port Talbot am gyllid llywodraeth leol a chyllideb arfaethedig Llywodraeth Cymru.

Mae Llywodraeth Cymru eisoes wedi bod yn gwneud popeth o fewn ei gallu i amddiffyn gwasanaethau rheng flaen rhag effeithiau gwaethaf y cyni, ac fe fydd yn parhau i wneud hynny. Ond mae'r her honno'n gynyddol anodd wrth i ni ddechrau ar y nawfed flwyddyn o gyni, yn wyneb costau a phwysau cynyddol. Bydd cyllideb Llywodraeth Cymru 5% yn is mewn termau real yn 2019-20 nag yr oedd yn 2010-11, wrth gymharu tebyg at ei debyg. Mae hyn yn cyfateb i £800m yn llai i'w wario ar wasanaethau cyhoeddus.

Fodd bynnag, pe bai gwariant wedi cadw i fyny gyda'r twf mewn GDP ers 2010-11, fe fyddem wedi cael £4bn arall i wario ar wasanaethau cyhoeddus yn 2019-20 - dros 20% yn fwy na'n gwir gyllideb.

Wrth osod cynlluniau dangosol ar gyfer 2019-20 pan gyhoeddwyd hwy llynedd, fe wnaethom gydnabod bod hyn yn doriad ariannol i lywodraeth leol ar adeg pan fo awdurdodau yn wynebu pwysau gwirioneddol o ganlyniad i boblogaeth sy'n heneiddio, cyflogau a chwyddiant o gyfeiriadau eraill. Yn y cyd-destun hwn, fe neilltuwyd £60m ychwanegol dros ddwy flynedd i lywodraeth leol yng Nghyllideb derfynol 2018-19.

Wrth baratoi Cyllideb 2019-20, rwyf wedi rhoi ystyriaeth ofalus iawn i'r amrywiol wasanaethau pwysig sy'n cael eu darparu gan lywodraeth leol ac yn cael eu defnyddio gan gannoedd o filoedd o bobl bob dydd ar draws Cymru.

Byddaf yn gosod Cyllideb ddrafft amlinellol Llywodraeth Cymru yr wythnos nesaf ar 2 Hydref; bydd y setliad llywodraeth leol yn cael ei gyhoeddi wythnos yn ddiweddarach a'r cynlluniau gwario manwl yn cael eu cyhoeddi ar 23 Hydref.

Bydd Pwyllgor Cyllid y Cynulliad Cenedlaethol yn craffu ar y Gyllideb ddrafft yn y ffordd arferol, a phwyllgorau craffu'r Cynulliad Cenedlaethol yn edrych ar y cynlluniau gwario manwl.

Byddaf yn barod i ddarparu rhagor o wybodaeth am oblygiadau'r Gyllideb ddrafft ar gyfer llywodraeth leol pan fydd y cynlluniau gwario manwl wedi'u cyhoeddi ar 23 Hydref, os byddai hynny o ddefnydd i'r Pwyllgor Deisebau.

Yn gywir,

Mark

**Mark Drakeford AC/AM**
Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid
Cabinet Secretary for Finance